**PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES: 6 MAWRTH 2002**

**ACCAC**

**ADOLYGIAD POLISI – YR IAITH GYMRAEG MEWN ADDYSG**

**Pwrpas**

1. Awdurdod Cymwysterau Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) yw prif gorff ymgynghorol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gwricwlwm ac asesu ysgolion a phob cymhwyster (ar wahân i'r rhai mewn addysg uwch).

2. Mae ACCAC yn gyfrifol yng Nghymru am –

   - sicrhau ansawdd a safonau mewn cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol allanol;
   - adolygu pob agwedd ar gwricwlwm yr ysgol a threfniadau statudol ar gyfer ysgolion a gynhelir; a
   - chomisiynu deunyddiau ystafell i ddosbarth dwyieithog Cymraeg er mwyn cynorthwyo wrth addysgu Cymraeg, pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg ac agweddau ar y cwricwlwm sy'n ymwneud â Chymru'n benodol.

   Mae'n ofynnol i ACCAC gyflawni ei swyddogaethau at ddibenion datblygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru gan anelu at hyrwyddo cydraddoldeb a chydlyniad mewn addysg a hyfforddiant.

3. Pwrpas y papur hwn yw darparu crynodeb o safbwynt ACCAC ar adolygiad polisi'r Pwyllgor ynghylch yr Iaith Gymraeg mewn Addysg. Yn ei dro, mae'n trafod y cyfnod yn yr ysgol, cyn ysgol ac ar ôl ysgol.

4. Mae'r papur yn ategu presenoldeb Cadeirydd ACCAC (Mr Brian Connolly, OBE) a Phrif Weithredwr ACCAC (John V Williams) yn y Pwyllgor.

## A. CYFNOD YN YR YSGOL

### Cwricwlwm

5. Cadarnhawyd, am y tro cyntaf, yn Neddf Diwygio Addysg 1988, y byddai Cymraeg yn cael ei gynnwys fel pwnc yng nghwricwlwm pob ysgol yng Nghymru – fel pwnc craidd mewn ysgolion Cymraeg (yn ôl diffiniad y Ddeddf) a phwnc sylfaen yn yr ysgolion eraill. Sefydlwyd Gweithgor gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd (a gadeiriwyd gan yr Athro Gwyn Thomas o Goleg Prifysgol Cymru, Bangor), a oedd yn amlinellu cynigion manwl ar gyfer rhoi'r penderfyniad polisi hwn ar waith. Dengys tystiolaeth a gyflwynwyd eisoes i'r Pwyllgor fod addysgu Cymraeg erbyn hyn yn rhan gadarn o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, gyda thros 98% o ddisgyblion rhwng 5 ac 16 oed yn astudio Cymraeg fel pwnc.

6. Mynegwyd pryderon ar ddau fater;

- parhad rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Cyfnod Allweddol 3.

  Disgrifiwyd y pryderon ynglŷn â'r gostyngiad rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 mewn nifer o ffyrdd e.e. er bod 20.9% o ddisgyblion ysgolion cynradd yn mynychu ysgolion lle mai Cymraeg yw'r unig gyfrwng, y prif gyfrwng neu rhan o gyfrwng yr addysgu, mae'r gyfran yn gostwng i 12.9% mewn ysgolion uwchradd; neu fod 40% o blant sy'n derbyn addysg gynradd yn dilyn 'trywydd eu mamiaith', yn dechrau eu haddysg uwchradd fel siaradwyr ail-iaith sy'n dilyn Cwricwlwm trwy gyfrwng y Saesneg.

  Ond, mae Bwletin Ystadegol SB 48/2001 'Cymraeg mewn Ysgolion' (Rhagfyr 2001) yn datgan bod penaethiaid, yn 2001, yn credu bod 16.5% o blant 11 oed (ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2) yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, ac yn 2000/01, mai dim ond ychydig dros 1% o'r rhai oedd yn siarad Cymraeg yn rhugl oedd heb barhau i ddysgu Cymraeg fel iaith gyntaf wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

  Mae angen gwaith manwl er mwyn canfod beth yn union yw natur y materion sy'n ymwneud â pharhad Cyfnod Allweddol 2/Cyfnod Allweddol 3. Mae hefyd angen cadarnhau a yw'r materion hyn yn rhai sy'n ymwneud â Chymru gyfan neu a ydynt yn fwy lleol, ac os mai'r olaf sy'n wir, beth yw'r achosion tebygol.

- continwwm rhwng Rhaglenni Astudio Cymraeg a Chymraeg fel Ail Iaith.

  Pan sefydlwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol gyntaf, penderfynwyd nad oedd yn bosibl llunio un Rhaglen Astudio a fyddai'n gallu cwmpasu pob disgybl yng Nghymru yn synhwyrol, tra, ar yr un pryd, yn darparu ar gyfer sawl lefel o berfformiad. Bu dau adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ers hynny (1993/1995 a 1997/2000). Yn yr adolygiad diwethaf, daethpwyd i'r casgliad unwaith eto nad oedd un Rhaglen Astudio yn ymarferol ond gwnaed gwaith i sicrhau fwy o gysondeb rhwng gofynion y Rhaglenni Astudio ar gyfer Cymraeg a Chymraeg fel Ail Iaith ac i greu gwell

rhyngberthynas rhwng lefelau cyrhaeddiad ar gyfer Cymraeg a Chymraeg fel Ail Iaith.

Bydd posibilrwydd continwwm yn parhau i fod yn rhan o adolygiadau'r Awdurdod o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn y dyfodol. Fodd bynnag, gan mai dim ond yn Ionawr 2000 y cwblhawyd yr adolygiad diwethaf, ni ellir cyfiawnhau dechrau adolygiad arall yn syth.

**Comisiynu**

7. Mae ACCAC yn comisiynu deunyddiau ystafell ddosbarth Cymraeg o safon uchel i gefnogi'r gwaith o addysgu Cymraeg fel pwnc a phynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg, a deunyddiau dwyieithog (Cymraeg/Saesneg) i gefnogi agweddau ar y Cwricwlwm sy'n ymwneud â Chymru'n benodol (y Cwricwlwm Cymreig).

8. Trosglwyddwyd y cyfrifoldebau hyn i ACCAC o'r Swyddfa Gymreig gynt ym 1995. Gan nad oes gan ACCAC bwerau creu grantiau, sefydlwyd system o gomisiynu trwy dendr agored. Arweiniodd y broses hon at ddatblygiadau arwyddocaol.

- Cynllun strategol a chorfforaethol

  Am y tro cyntaf, ar lefel strategol, nodir blaenoriaethau dros gyfnod o dair blynedd ac fe'u cyhoeddir mewn cyfres o ddogfennau strategol. Bwriedir i'r ddogfen strategol bresennol gael ei hadolygu yn y flwyddyn ariannol nesaf.

  Datblygwyd y gwaith o gomisiynu adnoddau ochr yn ochr â'r gwaith ar y cwricwlwm ac asesu gyda'r un swyddogion pwnc yn delio â phob maes. Arweiniodd hyn at ddatblygu deunyddiau sy'n mynd ochr yn ochr â chymwysterau neu â datblygiadau newydd yn y cwricwlwm.

- Rheoli ansawdd, amseru ac arian

  Mae'r Awdurdod yn monitro natur y cynnwys ac addasrwydd iaith dros yr holl ddeunydd, gyda swyddogion pwnc yr Awdurdod ac athrawon ystafell ddosbarth yn ganolog i'r gweithgaredd hwn. Datblygwyd a chyhoeddwyd *Termiadur Ysgol* er mwyn safoni termau Cymraeg ar draws y cwricwlwm. Y bwriad yw diweddaru'r cyhoeddiad hwn yn fuan.

  Drwy sefydlu perthynas â chyhoeddwyr ar sail contract, bu'n bosibl sicrhau y caiff adnoddau eu cynhyrchu o fewn amserlen benodol. Mae'r cyhoeddwyr eu hunain yn ogystal â'r Awdurdod yn buddsoddi yn y projectau. Ar gyfartaledd, mae cyhoeddwyr wedi cyfrannu tua 20% o gostau'r gyllideb, gan adennill y costau trwy werthiannau.

- Gweithio gydag eraill

  Mae'r Awdurdod wedi gweithio ar y cyd, neu wedi comisiynu projectau ar y cyd gyda nifer o gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru e.e. cyhoeddi llyfrau i fynd ochr yn ochr â chyfres deledu'r BBC; y CD Rom sy'n seiliedig ar Sain Ffagan gydag Amgueddfeydd ac Orielau Cymru; deunyddiau

galwedigaethol gyda’r Cynghorau Cyllido Addysg Bellach a llyfrau darllen gyda CBAC.

Datblygwyd perthynas agos iawn gyda Chyngor Llyfrau Cymru, yn enwedig ym maes marchnata, gyda’r Awdurdod yn hyrwyddo ac yn gweithio ar gyhoeddi catalog blynyddol yn cynnwys yr holl lyfrau ac adnoddau sydd ar gael yn y Gymraeg ar gyfer plant a disgyblion ysgol.

- Allbwn

Comisiynwyd 215 o brojectau rhwng mis Ebrill 1995 a 2001. Cwblhawyd 165 o’r rhain a chyhoeddwyd 1,167 o deitlau.

Yn ystod y cyfnod hwn, comisiynwyd projectau mewn 17 maes gwahanol:

| **Pwnc** | **% o brojectau** |
|---|---:|
| Cymraeg | 12% |
| Cymraeg Ail Iaith | 15% |
| Mathemateg | 9% |
| Gwyddoniaeth | 5% |
| Hanes | 8% |
| Daearyddiaeth | 11% |
| Celf | 3% |
| Cerddoriaeth | 7% |
| Ieithoedd Tramor Modern | 2% |
| Dylunio a Thechnoleg | 4% |
| Technoleg Gwybodaeth* | 6% |
| Addysg Gorfforol | 3% |
| Addysg Grefyddol | 6% |
| Anghenion Addysgol Arbennig* | 6% |
| Galwedigaethol | 1% |
| Astudiaethau Busnes | 1% |
| Traws Gwricwlaidd | 1% |

*cynhyrchwyd y deunyddiau ar gyfer y meysydd hyn ar gyfer pynciau penodol hefyd.

Comisiynwyd projectau ar gyfer disgyblion o bob oedran (5 hyd at 16+) ac o bob gallu, gan gynnwys anghenion addysgol arbennig. Er enghraifft, mae llyfrgell ar gael erbyn hyn sy’n cynnwys dros 150 o lyfrau mewn Braille Cymraeg ar gyfer plant o bob oedran.

Dros y blynyddoedd, paratowyd gwahanol fathau o ddeunyddiau – llyfrau, pecynnau a ffeiliau, rhaglenni fideo, disgiau a thapiau sain, CD Roms a deunydd ar gyfer y Rhyngrwyd. Y nod yw comisiynu’r deunydd yn y cyfrwng mwyaf priodol, o gofio bod cynnwys addysgol yr adnodd yn bwysicach na natur ei gyflwyniad. Fodd bynnag, mae dyfodiad technoleg newydd a’i defnyddio mewn ysgolion yn ffactor cynyddol bwysig o ran dewis yr awdurdod o gyfrwng cyhoeddi.

Roedd 64% o'r projectau yn cynnwys cynhyrchu deunyddiau gwreiddiol a 36% yn addasu deunydd o'r Saesneg. Cymraeg yw unig iaith oddeutu 70% o'r deunyddiau gyda'r gweddill yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r olaf o'r ddau yn ategu'r Cwricwlwm Cymreig ar draws y Cwricwlwm. Cyn 1995, ni wnaed darpariaeth o'r fath o gwbl.

- Edrych ymlaen

Yn ystod y chwe blynedd diwethaf gwelwyd gwelliant sylweddol o ran amrywiaeth ac ansawdd y deunyddiau Cymraeg sydd ar gael mewn ysgolion. Datblygwyd deunyddiau Saesneg hefyd gyda ffocws ar Gymru. Drwy edrych i'r dyfodol, gellir rhagweld sialensau newydd:

- mae disgwyliadau rhieni ac athrawon yn y maes hwn wedi cynyddu'n aruthrol dros y deng mlynedd diwethaf. Ceir galw mawr am ddeunyddiau gwell mewn nifer o feysydd e.e. meddalwedd Cymraeg ac ar gyfer cyrsiau ôl-16, yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol; a

- gan fod rhaglen comisiynu'r Awdurdod wedi ehangu er mwyn cynnwys mwy o feysydd y cwricwlwm ac ystod ehangach o ddisgyblion yn nhermau oed a gallu, mae'r gronfa o arbenigedd a phrofiad sydd ar gael o dan bwysau. O fewn y blynyddoedd nesaf bydd angen sicrhau bod y broses gomisiynu ar gyfer deunydd trwy gyfrwng y Gymraeg yn un y gellir ei chynnal dros gyfnod o amser.

**Cymwysterau**

9. Yn yr un modd ag y mae'r nifer o ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 1, 2 a 3 wedi cynyddu, mae'r ganran o ddisgyblion 15 oed sy'n cael eu cofrestru ar gyfer cymwysterau Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi cynyddu hefyd. Cynyddodd hon o 23% o'r garfan ym 1992 i 64% o'r garfan yn 2001. Mae'r cofrestriadau ar gyfer yr Iaith Gymraeg wedi cynyddu o 9% i 12%; a'r cofrestriadau ar gyfer cymwysterau Cymraeg Ail Iaith o 17% i 52%. Dros yr un cyfnod, cynyddodd y galw am gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg o 4.3% o'r cofrestriadau ym 1992 i 7.1% yn 2001. Ceir amrywiadau rhwng pynciau, gyda gwyddoniaeth a mathemateg yn dangos y cynnydd mwyaf mewn niferoedd absoliwt. Ceir tueddiadau tebyg o ran cymwysterau Lefel Mynediad a Safon Uwch.

10. Darparwyd arian ar gyfer cymwysterau cyffredinol trwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf ym 1994, trwy daliad a wnaed gan y Swyddfa Gymreig gynt i CBAC tuag at gynhyrchu arholiadau TAG a TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg. Trosglwyddwyd y cylch gorchwyl ar gyfer y gwaith hwn i ACCAC ar ôl hynny. Parheir gyda'r taliadau tuag at gostau arholiadau TAG a TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg; ynghyd â'r Tystysgrif Cyflawniad Addysgol mewn blynyddoedd diweddarach. Yn fwy diweddar, darparwyd cymorth ariannol ar gyfer cyfieithu manylebion Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol (GNVQ) a chynhyrchu profion asesu GNVQ trwy gyfrwng y Gymraeg – i ddechrau drwy'r Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol (NCVQ),

ac wedi hynny, gan ACCAC, yn dilyn ailgyfansoddi ym mis Hydref 1997. Bu'r Awdurdod hefyd yn ymwneud â chynhyrchu profion Sgiliau Allweddol trwy gyfrwng y Gymraeg; ac yn ddiweddar cyflwynodd gynigion ar gyfer darparu cymorth ariannol ar gyfer TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg mewn pynciau galwedigaethol Dyfarniadau Estyniad Uwch.

11. O ran y dyfodol, y sialensau yw –

- sicrhau bod digon o amser yn cael ei ganiatáu ar gyfer datblygu cymwysterau cyfochrog trwy gyfrwng y Gymraeg wrth i'r amrywiaeth o gymwysterau gynyddu;
- cynhyrchu polisi ariannu strategol sy'n ymwneud â chymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng egwyddorion cyfle cyfartal a'r ystyriaethau gwerth am arian yn sgîl buddsoddi arian cyhoeddus mewn meysydd lle ceir galw isel neu anhysbys. Comisiynwyd yr Awdurdod i baratoi cyngor yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod; ac
- ystyried y galw cynyddol sydd ar gronfa fach o weithwyr proffesiynol â chymwysterau a phrofiad priodol i osod, marcio a dilysu arholiadau.

## B. Y CYFNOD CYN YSGOL

12. Mae addysg orfodol yn dechrau yn bump oed, er, yng Nghymru, mae llawer iawn o blant, cyn yr oed hwnnw, yn mynychu dosbarthiadau meithrin neu ddosbarthiadau derbyn mewn ysgolion cynradd, unedau meithrin, ysgolion meithrin, ysgolion meithrin preifat, meithrinfeydd dydd preifat neu gylchoedd chwarae gwirfoddol.

13. Mae cyhoeddiad yr Awdurdod *'Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant cyn Oedran Ysgol Gorfodol'* yn rhoi arweiniad ar gyfer darpariaeth dan bump oed, gan ystyried yr arfer orau ar gyfer darpariaethau addysg cyn oedran ysgol gorfodol a ddatblygwyd yng Nghymru. Mae'r ddogfen yn egluro mai un peth sy'n nodweddu darpariaeth o ansawdd da yng Nghymru yw ei bod yn darparu profiadau a chyfleoedd i blant ifanc i'w gwneud yn ymwybodol o hynodrwydd Cymru, ei hieithoedd a'i diwylliant.

14. O ran Cymraeg a'r Cwricwlwm Cymreig, â'r ddogfen ymlaen i ddweud:

> "Pan fydd plant yn cyrraedd oedran addysg orfodol byddant yn dysgu Cymraeg fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Byddant hefyd yn cael cyfleoedd, lle bo hynny'n addas, i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru, sef y Cwricwlwm Cymreig.
>
> Bydd llawer o gylchoedd chwarae a dosbarthiadau meithrin, sy'n defnyddio Saesneg fel prif gyfrwng eu gweithgaredd, hefyd yn defnyddio ychydig o Gymraeg. Gall profiad o'r Gymraeg yn ifanc, pan fydd sgiliau caffael iaith plentyn ar eu mwyaf effeithiol, fod yn sail werthfawr ar gyfer dysgu Cymraeg yn yr ysgol.

Y Gymraeg yw cyfrwng llawer o ddarpariaeth, gwirfoddol a statudol, i blant dan bump. Yn y ddarpariaeth Gymraeg yma bydd nifer fawr o blant yn dod o gartrefi di-Gymraeg ond gyda chefnogaeth briodol a chynllunio'r dilyniant, bydd y plant yma'n dod yn ddwyieithog maes o law.

Dylai pob plentyn dan bump gael cyfle i glywed an Gymru, am ei gynefin, am draddodiadau, hanesion a chwedlau, am bobl ac am ddigwyddiadau. Dylai'r profiadau yma fod yn rhan o brofiad dysgu bywiog a gwerthfawr i blant dan bump yng Nghymru. Bydd yn dyfnhau profiad y plant o fywyd yng Nghymru."

15. Nid yw rôl comisiynu'r Awdurdod yn cynnwys y cyfnod cyn ysgol ond yn ôl ein dealltwriaeth, defnyddir llawer o'r deunyddiau a gomisiynwyd ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 gan blant dan bump oed.

16. O ran y dyfodol, cynrychiolir yr Awdurdod ar y Panel Ymgynghorol ar y Blynyddoedd Cynnar a chadeiria ei Grŵp Cwricwlwm. Disgwylir canlyniadau gwaith y Panel.

## C. Y CYFNOD AR ÔL YSGOL

17. Mae’r cyfnod ar ôl ysgol yn fwy cymhleth ac ymdrinnir ag ef yn fanwl yn nhystiolaeth Cyngor Cenedlaethol ELWa.

18. Dros y ddau ddegawd diwethaf, bu ymdrechion sylweddol i ddatblygu a gwella’r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae nifer o sefydliadau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant wedi cymryd camau i ddarparu rhaglenni astudio/hyfforddiant yn gyfan gwbl neu yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg mewn meysydd galwedigaethol fel gweinyddu busnes, rheolaeth, gofal iechyd a chymdeithasol, addysg blynyddoedd cynnar, hamdden a lletygarwch, adeiladu, galwedigaethau sy’n ymwneud â’r tir, cyfryngau, hyfforddiant a datblygiad. Ceisiodd nifer bach o’r cyrff dyfarnu i fodloni’r angen am asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer cymwysterau penodol (e.e. GNVQ, NVQ). Bu’n bosibl cyflawni NVQ a GNVQ trwy gyfrwng y Gymraeg ers y 1990au cynnar. Er gwaethaf hyn, isel iawn fu’r nifer a fanteisiodd ar y cyfleoedd hyn yn y mwyafrif o achosion.

19. Erbyn hyn, mae’n gynyddol bosibl cael gwybodaeth gyffredinol ac arweiniad ar gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â Saesneg, sy’n ymwneud â chymwysterau galwedigaethol. Er enghraifft, cynhyrchodd Swyddfa’r Cyngor Cenedlaethol dros Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru (1995-97) nifer o lyfrynnau, taflenni, deunyddiau arweiniad yn ymwneud â NVQ a GNVQ yn Gymraeg a Saesneg. O bryd i’w gilydd, mae rhai o’r cyrff dyfarnu wedi cyhoeddi gwybodaeth gyffredinol am eu darpariaeth yn y ddwy iaith hefyd.

20. Mae’r Awdurdod yn chwarae rôl bwysig sicrhau bod cyfleoedd ar gael i alluogi ymgeiswyr i gyflawni cymwysterau galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg mewn canolfannau ledled Cymru. Gwneir hyn, yn rhannol, trwy’r broses o achredu cymwysterau galwedigaethol yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Mae Meini Prawf Cyffredinol yr Awdurdodau Rheoleiddio a dogfennau Arweiniad Interim y Corff Awdurdodi (cyflwyniadau Rhan B) a’r Egwyddorion Cynllunio ar gyfer Cymwysterau Lefel Uwch yn darparu arweiniad i gyrff dyfarnu ar weithdrefnau sy’n ymwneud ag asesu cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.

21. Bu ACCAC yn darparu cyngor ac arweiniad i gyrff dyfarnu a chanolfannau ar faterion sy’n ymwneud â’r defnydd a wneir o’r iaith Gymraeg wrth gyflwyno ac asesu NVQ a chymwysterau galwedigaethol sy’n ymwneud â galwedigaeth. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynhyrchu arweiniad tebyg ar gyfer GNVQ, AVCE a TGAU mewn pynciau galwedigaethol, ynghyd â chynhyrchu rheoliadau drafft ar gyfer asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg ac asesiadau dwy iaith. Darparwyd arweiniad i Sefydliadau Hyfforddi Cenedlaethol ar faterion sy’n ymwneud â chyfieithu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i’r Gymraeg. Bydd arweiniad tebyg ar gael i’r Cynghorau Sgiliau Sector newydd maes o law. Cyhoeddwyd rhestr termau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Paratoir fersiwn newydd ar hyn o bryd.

22. Ymgymerwyd â pheth gwaith ymchwil ar raddfa fach. Yn y cyfnod 1999-2001, ymgymerwyd â gwaith i ddarganfod angen cyflogwyr am allu dwyieithog (Cymraeg/Saesneg a ieithoedd eraill) a'r angen i gydnabod gallu o'r fath. Nododd cyflogwyr a darparwyr eu bod yn cefnogi datblygu mecanweithiau i gydnabod sgiliau trawsieithyddol. Mae'r Sefydliadau Hyfforddi Cenedlaethol ar Ieithoedd yn cyflwyno cais i ddatblygu Safonau Cenedlaethol ar gyfer sgiliau trawsieithyddol ar hyn o bryd. Mae ACCAC yn cefnogi'r datblygiad. Os bydd y cais yn llwyddiannus, rhagwelir y gellir cynnal peilot o'r Safonau cyn diwedd y flwyddyn hon.

23. Mae'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ar argaeledd asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r nifer sy'n manteisio arnynt ym mhob grŵp o gymwysterau galwedigaethol, yn anghyflawn ac yn aml yn annibynadwy. Yn hanesyddol, ni fu cyrff dyfarnu yn cadw cofnod o fanylion am asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn wir, dim ond yn ddiweddar iawn y gofynnwyd iddynt ddarparu gwybodaeth o'r fath. Mae llawer o gyrff dyfarnu yn cymryd camau i ddatblygu eu systemau i gael gafael ar y data ar hyn o bryd.

24. Nid yw cylch gorchwyl yr Awdurdod o ran comisiynu yn cynnwys y cyfnod ar ôl ysgol. Fodd bynnag, gwyddys fod rhywfaint o'r deunyddiau a gomisiynwyd yn cael eu defnyddio mewn colegau addysg bellach.

25. O ran y dyfodol, mae'r sialensau sy'n ychwanegol i'r rhai ym mharagraff 11 fel a ganlyn –

- datblygu strategaeth genedlaethol integredig a fframwaith polisi ar gyfer y cyfnod ar ôl ysgol, gan gynnwys pob partner allweddol ac adeiladu ar gyhoeddi dogfennau fel *Y Wlad sy'n Dysgu* a'r *Cynllun Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau i Gymru;*
- datblygu systemau gwell ar gyfer casglu gwybodaeth sy'n ymwneud â darpariaeth a galw;
- datblygu strategaeth hyrwyddo fwy cydlynol; a
- datblygu cynlluniau eglur ar gyfer ariannu ac adnoddau dynol i fod yn sail i'r datblygiadau.

## Casgliad

26. Mae'r papur hwn yn darparu crynodeb o safbwynt ACCAC ar adolygiad polisi'r Pwyllgor. Mae'n bosibl y bydd cyfyngiadau amser yn atal y Pwyllgor rhag archwilio'r holl faterion a godwyd yn y papur hwn. Mae ACCAC yn fodlon dychwelyd i'r Pwyllgor ar ddyddiad diweddarach, pe byddai hynny o gymorth.

**ACCAC** **Chwefror 2002**